

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,  
Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

**Culture, Communications, Welsh Language,  
Sport, and International Relations Committee**

Dawn Bowden AS  
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon  
a'r Prif Chwip  
Llywodraeth Cymru

**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddDiwylliant@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddDiwylliant  
0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddCulture@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddCulture  
0300 200 6565

21 Rhagfyr 2021

**Eglurder ar gymhwysedd Cronfa Sefydlogrwydd Diwylliannol y Gaeaf**

Annwyl Dawn

Yn dilyn llythyr y Pwyllgor (dyddiedig 6 Rhagfyr 2021) a'r datganiad ysgrifenedig yr ydych wedi ei gyhoeddi ar 21 Rhagfyr, rwy'n ysgrifennu atoch i holi am eglurder pellach ynghylch cymhwysedd ar gyfer Cronfa Sefydlogrwydd Diwylliannol y Gaeaf. Rwy'n siŵr y bydd llawer o sefydliadau yn ddiolchgar am y gefnogaeth hon yn ystod y cyfnod cythryblus hwn.

Mae eich datganiad yn nodi: "Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod £5.25m ar gael i gynorthwyo sefydliadau celfyddydol, amgueddfeydd, llyfrgelloedd a sinemâu annibynnol Cymru drwy'r gaeaf." Byddwn yn ddiolchgar pe gallech egluro rhagor o fanylion am y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y gronfa hon. Yn benodol, a allwch gadarnhau a fyddai lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad; theatrau a lleoliadau tebyg; a gweithwyr llawrydd sy'n gweithio yn y sector diwylliant a'r celfyddydau, yn gymwys i wneud cais i'r gronfa?

Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir,



Delyth Jewell AS

Cadeirydd

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol.



**Senedd Cymru  
Welsh Parliament**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.